PROSIECT PORFA CYMRU
WELSH PASTURE PROJECT

# Pedwar o arbenigwyr pori yn ymuno â Phrosiect Porfa Cymru ar gyfer 2021

FARMING connect
cyswllt FFERMIO
08456 000 813

Mae gan Gymru fantais aruthrol yn ei gallu i dyfu llawer iawn o laswellt o ansawdd da. O'i reoli'n gywir, mae glaswellt sy'n cael ei bori yn rhoi porthiant o ansawdd da i anifeiliaid, yn lleihau'r angen i ddefnyddio gwrtaith nitrogen, yn gallu cadw carbon yn y pridd ac mae'n cael ei gysylltu ag elw uwch cyson ar ffermydd.

Nod Prosiect Porfa Cymru yw darparu gwybodaeth a chyngor rheoli ar sail tueddiadau tyfu glaswellt gwahanol ardaloedd, a gofnodwyd yn ofalus gan y ffermwyr ymroddedig sy'n rhan o'r prosiect. Os oes gennych chi ddiddordeb mewn gwella eich dulliau rheoli pori OND ddim yn mesur glaswellt ar hyn o bryd, dyma'r prosiect i chi!

Bydd y wybodaeth yn eich helpu i wneud penderfyniadau amserol am reoli glaswelltir ar y fferm megis:

- A ddylwn droi'r da byw allan?
- A ddylwn gau'r caeau ar gyfer silwair?
- A ddylwn ychwanegu porthiant clustogi?
- A ddylwn chwalu gwrtaith yr wythnos hon?
- A ddylwn ddiddyfnu fy ŵyn?

**Dengys gwaith ymchwil bod ffermwyr sy'n rheoli glaswellt yn dda mewn sefyllfa fwy cadarn bod ffermwyr sy'n rheoli glaswellt yn dda yn fwy proffidiol ac yn gallu gwrthsefyll sgil-effeithiau'r tywydd yn well.**

## MWY O FFERMYDD A MWY O GYFRADDAU TWF AR GYFER 2021!

Ar gyfer 2021, rydym wedi cynyddu nifer y ffermydd i 49. Ceir amrywiol systemau, mathau o dir a lefelau profiad ymysg y ffermydd a'r ffermwyr a bydd pob un ohonynt yn mesur twf eu glaswellt bob 7 i 14 diwrnod rhwng mis Mawrth a mis Tachwedd.

**Eleni mae gennym:**

Nifer y ffermwyr biff a defaid: **29**

Nifer y ffermwyr llaeth: **20**




Os gwelwch fferm yn yr un ardal â chi, cadwch olwg ar dwf eu glaswellt, mae'n debygol y bydd tueddiad tyfu tebyg yn digwydd ar eich fferm chi! Bydd hyn yn eich helpu i wneud penderfyniadau rheoli rhagweithiol ar eich fferm eich hun.


## Ffermwyr glaswellt arbenigol

Yn newydd ar gyfer 2021, mae gennym bedwar o arbenigwyr pori!

Dewiswyd y pedwar ffermwr hyn oherwydd eu gwybodaeth a'u sgiliau rheoli glaswelltir ardderchog i roi inni olwg ar eu systemau ac i roi gwybodaeth am wneud penderfyniadau amserol dros y flwyddyn.


Ianto Pari - *Ffermwr biff a defaid* - Gwynedd


Rhys Williams - *Ffermwr llaeth* - Gwynedd


Andrew Giles - *Ffermwr llaeth* - Powys


Bleddyn Davies - *Ffermwr defaid* - Ceredigion

**LANSIO'R PROSIECT:** Cyhoeddir y set gyntaf o nodiadau rheoli ar **11 Mawrth**.
Cofiwch gadw golwg ar wefan a chyfryngau cymdeithasol Cyswllt Ffermio fel na fyddwch yn eu methu nhw! Chwiliwch ar-lein am **#ProsiectporfaCymru**